# Mapiau Cymdeithasol Teithiau Cerdded Cynllunwyr Ifanc Cymru

# - Conwy -

RTPI Young Planners
Royal Town Planning Institute


Dilynwch daith o amgylch Conwy sy'n tynnu sylw at rai o'r lleoliadau diddorol yn yr ardal yn ogystal â rhai o'r tirnodau pwysig o ran rhinwedd cynllunio.

Mae Cynllunwyr Ifanc Cymru wedi llunio'r daith gerdded hon er mwyn ychwanegu gweithgaredd cymdeithasol at ein harfau yn ystod y pandemig (ac wedi hynny) a'n hannog ni i gyd i fynd allan ac edrych ar y cyfoeth sydd i'w weld mewn rhai o'n hardaloedd lleol.

**Y Print Mân**

Wrth fynd ar y daith gerddded hon, gofalwch am eich diogelwch personol a chadwch o fewn unrhyw gyfyngiadau COVID lleol.

# Conwy




1. Waliau’r Dref / Town Walls
2. Erskine Arms
3. Cerflun o Llywelyn Fawr Statue
4. York Place
5. Yr Academi Frenhinol Gymreig / Royal Cambrian Academy
6. Plas Mawr
7. Stryd Fawr / High Street
8. Eglwys Santes Fair a’r Holl Saint / St Mary’s & All Saints Church
9. Black Lion Inn
10. Lower Gate Quay / Cei y Giat Isaf
11. Tŷ Lleiaf Prydain / Britain’s Smallest House
12. Diwydiant Cregyn Gleision Conwy / Conwy’s Mussel Fishing Industry
13. Swyddfa’s Harbwr Feistr / Harbour Master’s Office
14. Tair Pont / Three Bridges
15. Castell Conwy Castle

# Taflen Ffeithiau

1. Mae waliau'r dref ymysg y mwyaf cain a chyflawn yn Ewrop. Maen nhw'n ymestyn bron yn ddi-dor o amgylch craidd canoloesol Conwy, gan ymestyn am dri chwarter milltir â 21 o dyrau a thri phorth gwreiddiol ar hyd y cyfan.

2. Mae'r Erskine Arms yn dafarn porthmyn Georgaidd draddodiadol sy'n swatio yn waliau canoloesol Conwy a chredir ei bod wedi'u hadeiladu tua 1830au/1840au.

3. Cerflun Llywelyn Fawr ym 1895. Roedd Llywelyn yn fuddugol yn erbyn llawer o'i berthnasau yng Ngwynedd mewn cyfres o frwydrau yng nghanol y 1190au. Roedd hyn yn cynnwys ei ewyrth, Dafydd a Rhodri, a'i gefndryd, Gruffudd a Maredudd – bob un yn ddisgynnydd i Owain Gwynedd. Yn sgil hyn, Llywelyn oedd unig arweinydd Gwynedd erbyn 1199 pan roddodd yr enw Tywysog Gogledd Cymru i'w hun.

4. Y tu ôl i'r orsaf heddlu mae York Place. Daw'r enw o Dr John Williams, Archesgob Efrog, a chwaraeodd ran bwysig yn y Rhyfel Cartref rhwng Brenin Charles I ac Oliver Cromwell.

5. Yr adeilad ar y gornel yw'r Academi Frenhinol Gymreig sy'n gartref i waith artistiaid cyfoes Cymru. Fe'i sefydlwyd ym 1881 gan grŵp o artistiaid Cymru a oedd wedi sefydlu 'trefedigaeth' ym Metws-y-Coed a phentrefi eraill yn Nyffryn Conwy. Ym 1993 symudodd i'r capel hwn a droswyd.

6. Plas Mawr, a adeiladwyd ar gyfer Robert Wynn o Gastell Gwydyr, Llanrwst, ym 1576-80. Plas Mawr yw un o'r tai tref o oes Elizabeth gorau sy'n dal i sefyll o unman ym Mhrydain.

7. Daw rhan fwyaf yr adeiladau ar y Stryd Fawr o'r 19$^{eg}$ ganrif ac maent yn disodli tai, siopau a thafarndai hanner pren cynharach nad oedd safon yr adeiladu cystal. Ar adegau yn y 18$^{fed}$ a'r 19$^{eg}$ ganrif, roedd dros 50 o dafarndai yng Nghonwy, sy'n dref bwysig ar hyd llwybrau masnachu rhwng Lloegr ac Iwerddon.

8. Yn wreiddiol, safai Mynachdy Sistersaidd Aberconwy ar y safle hwn, ac yn y 13$^{eg}$ ganrif, claddwyd Llywelyn Fawr, tywysog Cymru, yma. Yn dilyn concwest Brenin Edward I symudodd y mynachod i fyny Dyffryn Conwy i Faenan ac ailadeiladwyd eglwys yr Abaty yma dros y canrifoedd nesaf.

9. Mae rhannau hynaf yr adeilad yn dyddio'n ôl i'r cyfnod pan ailadeiladwyd Conwy yn dilyn difa'r dref gaerog ym 1401 gan arweinydd lluoedd gwrthryfelwyr Cymru, Owain Glyndwr. Yn ôl archaeoleg, roedd y tŷ yn dŷ neuadd trefol â dwy gilfach a nenfforch gymalog. Troswyd y tŷ neuadd ym 1589.

10. Mae'r Liverpool Arms wedi'i adeiladu trwy waliau'r hen dref, gyda'r drws cefn y tu mewn i'r dref a'r drws blaen yn wynebu tua'r cei.

11. Gan fesur dim mwy na 180cm x 300cm (72" x 122"), sef arwynebedd llawr o 5.4 metr sgwâr, daeth y tŷ lleiaf ym Mhrydain i fod pan adeiladwyd tai ar hyd y waliau o'r naill ochr a'r llall. Nid oedden nhw'n cwrdd yn union a llenwyd y bwlch â thŷ bach iawn. Roedd pobl yn byw yn y tŷ tan 1900, pan oedd y preswylydd diwethaf yn bysgotwr 6 throedfedd o daldra.

12. Yr adeilad gwyn ger pen pellaf y cei yw gwaith puro cregyn gleision Conwy. Mae'r dyfroedd clir o ffrydiau mynyddoedd Eryri yn gymysg â dŵr y môr yn cynnig yr amgylchedd perffaith i gregyn gleision dyfu.

13. Yn ystod y 19$^{eg}$ ganrif, roedd Conwy yn borthladd prysur ar gyfer allforio llechi, halen a phren, a bu'n rhaid talu tollau ar y rhain. Swyddfa'r Porthfeistr oedd y Swyddfa Dollau ar un adeg yn y 19$^{eg}$ ganrif.

14. Y bont hynaf yw Pont Grog Thomas Telford, a adeiladwyd ym 1822-26. Adeiladodd Telford ei bont i weddu i'r castell: mae'r tyrau yn fersiynau llai o dyrau'r castell ac mae'r tolldy ar ben pellaf y bont yn gastell barwnol bach. Adeiladwyd pont reilffordd unigryw Robert Stephenson ym 1846-48. Adeiladwyd trydedd bont ffordd newydd ym 1958.

15. Conwy yw un o gaerau mawr Ewrop canoloesol. Roedd y castell yn rhan bwysig o gynllun Brenin Edward I i amgylchynu Cymru mewn â "chylch haearn o gestyll" er mwyn atal poblogaeth Cymru a oedd yn gwrthwynebu meddiannaeth y Saeson o'i mamwlad â thrais.